

Etholiad Cyffredinol 2024 – Ddylai neb orfod talu'r pris am ofalu

Mae miliynau o ofalwyr ledled y DU ac maent yn arbed gwerth biliynau o bunnoedd o ofal i'r wladwriaeth. Mae ganddynt filiynau o bleidleisiau hefyd.

Ond, yn aml, mae gofalwyr wedi dweud wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu hanghofio, eu hesgeuluso ac wedi blino'n lân. All hyn ddim mynd yn ei flaen.

Ni ellir anwybyddu gofalwyr o bob oed – naill ai yn ystod yr ymgyrch etholiadol neu gan Lywodraeth nesaf y DU.

Helpwch yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr i weddnewid bywydau gofalwyr drwy alw ar Lywodraeth nesaf y DU i wneud y canlynol:

Rhoi'r gorau i wthio'r gofalwyr i'r eithaf

Ymrwmo i ariannu'r gwasanaethau cymorth sydd eu hangen mewn cymunedau lleol i amddiffyn gofalwyr rhag gofynion gofal gormodol

"Mae angen i ni gael cydnabyddiaeth a chefnogaeth am yr hyn rydyn ni'n ei wneud. Rydyn ni'n arbed arian i'r GIG ac i'r Llywodraeth, ac mae'n bryd i ni weld hynny'n cael ei fuddsoddi yn ôl i wasanaethau gofalwyr lleol teilwng y gallwn ni eu defnyddio'n gyflym ac yn hawdd."

Rhoi terfyn ar dlodi ymhlith gofalwyr

Ni ddylai unrhyw ofalwr fyw mewn tldi. Mae angen ailwampio'r system fudd-daliadau er mwyn i ofalwyr gael gwell cymorth ariannol. Mae angen help ar ofalwyr i ddod o hyd i waith ac aros mewn gwaith pan fyddant eisiau gweithio. Mae angen mynediad arnynt hefyd at grantiau bach a ariennir gan y wladwriaeth mewn cyfnodau anodd.


"Rydw i wedi gorfod rhoi'r gorau i fy swydd amser llawn, fel nad oes rhaid i mam fynd i gartref gofal, a fyddai'n costio miloedd i'r Llywodraeth."

Ymrwmo i ddyfodol teg i ofalwyr ifanc

Rhaid diogelu addysg gofalwyr ifanc. Mae angen cyllid pwrpasol ac adnoddau ehangach i sicrhau bod gofalwyr ifanc yn cael eu cefnogi i gydbwyso eu rôl gofalu â'u haddysg.

"Mae angen i leoliadau addysg fod yn fwy ymwybodol o'r hyn y mae gofalwyr ifanc yn mynd drwyddo. Gall fod yn anodd ac yn flinedig. Dydyn ni ddim yn ddiog; rydyn ni wedi blino ac yn gweithio'n rhy galed."

Mae dros 1.5 miliwn o bobl
yn darparu 50 awr neu fwy o ofal bob wythnos



Mae 1 o bob 3 gofalwr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc
yn dweud eu bod yn cael trafferth cadw'r ddysgl yn wastad rhwng gofalu a dysgu



Mae 28% o ofalwyr yn byw mewn tldi
o'i gymharu ag 20% o'r rheini nad ydynt yn darparu gofal (JRF).

